| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **3YDD MAWRTH 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CALENDR PWYLLGORAU 2016/17** |
| **PWRPAS** | **CYFLWYNO CALENDR PWYLLGORAU 2016/17** |
| **AWDUR** | **GERAINT OWEN**<br>**PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn ystod y broses o lunio Calendr Pwyllgorau y Cyngor ar gyfer 2016/17, rhoddwyd gwahoddiad i aelodau etholedig, trwy *Rhaeadr,* i ddatgan eu barn am amserlennu cyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2016/17.

1.2 Bwriad hyn oedd ceisio sicrhau fod y Cyngor yn rhoi cyfle i bawb fod yn rhan o'r broses ddemocrataidd, gan felly wneud pob ymdrech i sicrhau fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau addas ac ar amseroedd rhesymol er mwyn cynorthwyo aelodau i gyflawni eu rôl yn effeithiol.

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau mewn ymateb i'r cais yn *Rhaeadr* .

1.3 Bu ymgynghori ar fersiwn drafft calendr Pwyllgorau 2016/17 y Cyngor gyda Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn sicrhau nad oedd gwrthdaro rhwng cyfarfodydd y ddau sefydliad.

1.4 Bu hefyd ymgynghori gyda swyddogion o fewn y Cyngor ynghyd â Grwp Busnes y Cyngor.

**2. CALENDR PWYLLGORAU 2016/17**

2.1 Cyflwynir calendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2016/17 yn Atodiad A. Mae'r cyfarfodydd wedi eu rhaglennu ar yr un sail â llynedd, sef 2015/16.

**3 ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Cyngor Llawn gymeradwyo a mabwysiadu'r calendr ar gyfer 2016/17.